# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 15 Medi 2004

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i Brif Weinidog Cymru*

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** Faint fydd taith y Prif Weinidog i Tsieina ym mis Medi 2004 yn ei chostio, neu faint sydd wedi'i glustnodi ar ei chyfer, ac a wnaiff ddarparu manylion costau llety, teithio ac arlwyo ar ei gyfer ef ac ar gyfer y staff a fydd yn mynd gydag ef. (WAQ37509)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** Faint o staff y Prif Weinidog fydd yn teithio gydag ef i Tsieina ym mis Medi 2004 ac a wnaiff restru beth fydd eu rolau a'u cyfrifoldebau tra byddant yno. (WAQ37510)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon*

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â threfnwyr Mardi Gras Caerdydd-Cymru ynghylch trefniadau ariannu’r digwyddiadau yn y gorffennol ac yn y dyfodol ac a yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyfrannu tuag at ariannu'r Mardi Gras. (WAQ37512)

**Carl Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy):** A wnaiff y Gweinidog restru'r prosiectau cyfalaf a ariennir gan y Cynulliad i adeiladu, datblygu a gwella cyfleusterau chwaraeon yng Ngogledd Cymru ers 1999. (WAQ37524)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth*

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A yw'r Gweinidog yn fodlon bod y cyfnod ymgynghori a gynigir gan BT ynghylch cael gwared ar flychau ffôn yng Nghymru yn ddigonol a'i fod wedi'i gynnal ar adeg briodol o'r flwyddyn. (WAQ37514)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch ceisiadau am iawndal yn erbyn ysgolion mewn perthynas â gweithgareddau awyr agored y tu allan i’r ysgol. (WAQ37504)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o iawndal sydd wedi'i dalu gan

ysgolion mewn perthynas â gweithgareddau awyr agored y tu allan i’r ysgol ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf. (WAQ37505)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Yn dilyn o WAQ34045 a 34741 pa ganran o’r tir sy'n cael ei ffermio yng Nghymru sydd, erbyn hyn, yn cael ei ffermio'n organig. (WAQ37511)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus*

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog restru nifer yr eiddo fesul etholaeth Seneddol ar draws Cymru fydd yn cael eu hail-fandio i a) band treth uwch a b) band treth is a c)nifer y cartrefi fydd yn aros yn yr un band, yn dilyn ailbrisio'r dreth gyngor. (WAQ37507)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog restru nifer yr eiddo fesul etholaeth Seneddol ledled Cymru sy'n codi o fwy nag un band y dreth gyngor yn dilyn ailbrisio'r dreth gyngor. (WAQ37508)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru):** Sut bydd ceisio am gymorth y cynllun rhyddhad dros dro arfaethedig a gyhoeddwyd gan y Gweinidog yn ei datganiad ysgrifenedig ar 1 Medi yn effeithio ar berchnogion tai sydd â chynilion. (WAQ37530)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru):** A wnaeth Llywodraeth y Cynulliad ystyried chwyddiant mewn eiddo wrth ail-fandio cartrefi ledled Cymru. (WAQ37531)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Sandy Mewies (Delyn):** Yn dilyn ei hateb i WAQ 37258, a wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar p’un a oes yn rhaid nodi MRSA ar dystysgrif marwolaeth pan fo'r haint wedi cyfrannu at farwolaeth claf. (WAQ37506)

**Christine Chapman (Cwm Cynon):** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau bod plant â phobl ifanc sy'n dod o deuluoedd sydd wedi gwahanu yn saff pan fyddant yn dod i gysylltiad â rhiant neu aelod arall o'u teulu. (WAQ37513)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar pam fod cleifion sydd wedi torri'u hesgyrn yn cael eu cynghori i fynd ar eu liwt eu hunain i Ysbyty Maelor Wrecsam am driniaeth bellach ar ôl eu hatgyfeirio o Ysbyty Dolgellau. (WAQ37516)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gynlluniau wrth gefn sydd ar gael yng

Ngheredigion i gefnogi'r gwasanaeth ambiwlans o ganlyniad i'r oriau gwaith ychwanegol yn sgil ei gwneud hi'n ofynnol bod meddygon teulu ar gael y tu allan i oriau arferol. (WAQ37517)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa mor aml y mae'r gwasanaeth pelydr-X yn cael ei weithredu yn Ysbyty Dolgellau. (WAQ37518)

**Kirsty Williams (Brycheiniog Sir Faesyfed):** Faint o feddygon teulu sy'n gweithio ar hyn o bryd mewn ysbytai cymuned sydd wedi anfon llythyrau yn ymddiswyddo o'u contractau cyfredol sy'n cynnwys gwaith o fewn a'r tu allan i oriau arferol a faint sydd wedi ymddiswyddo o'u gwaith y tu allan i oriau arferol yn unig mewn ysbytai cymuned. (WAQ37519)

**Kirsty Williams (Brycheiniog Sir Faesyfed):** Faint o Ymddiriedolaethau sydd wedi llofnodi contractau newydd â phractisau meddygon teulu ar gyfer darparu gwasanaethau o fewn ysbytai cymuned yng Nghymru. (WAQ37520)

**Kirsty Williams (Brycheiniog Sir Faesyfed):** Faint o ysbytai cymuned sydd wedi cau ym mhob un o'r deng mlynedd diwethaf a faint o'r gwasanaeth y tu allan i oriau arferol fydd yn cael ei ddarparu gan y sefydliadau newydd sy'n darparu gwasanaeth y tu allan i oriau arferol ar ôl Hydref 2004, yn hytrach na chan feddygon teulu. (WAQ37521)

**Kirsty Williams (Brycheiniog Sir Faesyfed):** A oes unrhyw ardal neu ysbyty cymuned lle mae'r meddygon teulu wedi rhoi rhybudd o'u bwriad i beidio â darparu gwasanaeth y tu allan i oriau arferol a lle nad oes trefniadau newydd wedi'u gwneud gyda'r rhai a fydd yn darparu'r gwasanaeth y tu allan i oriau arferol. (WAQ37522)

**Kirsty Williams (Brycheiniog Sir Faesyfed):** Faint o welyau meddygol cyffredinol a geriatrig a ddarperir ar hyn o bryd mewn ysbytai cymuned ac a oes unrhyw un o'r gwelyau mewn perygl oherwydd nad yw'r Ymddiriedolaethau wedi dod i gytundeb â phractisau meddygon teulu ynghylch sicrhau bod meddygon teulu ar gael yn barhaus. (WAQ37523)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar p'un a yw Ymddiriedolaeth y GIG yng Nghymru wedi trafod, neu'n mynd i drafod, unrhyw gynlluniau cyfredol i gau ysbytai cymuned yng Nghymru. (WAQ37525)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ddyfodol ysbytai cymuned yng Nghymru. (WAQ37526)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** Pa gynlluniau wrth gefn y mae Ymddiriedolaethau'r GIG wedi'u gwneud i ddarparu gwasanaeth meddygol mewn ysbytai cymuned pe na baent yn gallu cytuno ar drefniadau newydd gyda phractisau meddygon teulu lleol. (WAQ37527)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad

ar honiad Cymdeithas Feddygol Prydain y byddai meddygon teulu lleol, sy'n darparu gwasanaeth 24 awr i ysbytai cymuned, yn cael eu talu ar raddfa o lai na £1 yr awr. (WAQ37528)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod meddygon teulu sy'n gweithio mewn ysbytai cymuned ledled Cymru yn cael eu talu o leiaf ar raddfa'r isafswm cyflog. (WAQ37529)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio*

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gamau fydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n eu cymryd dros y chwe mis nesaf i sicrhau bod awdurdodau lleol yng nghanolbarth a gorllewin Cymru'n gallu cwblhau'r gwaith o atgyweirio tai cyngor. (WAQ37515)